EISTEDDFOD FLYNYDDOL ABERGYNOLWYN

9/2/19

Daeth yr ail ddydd Sadwrn o Chwefror unwaith eto gydag Eisteddfod `flynyddol Abergynolwyn yn ei gol. Bu'r tywydd yn llai bygythiol eleni am i'r cawodydd eira ymweld wythnos yn gynt! Braf oedd cael croesawu'r beirniad, rhai yn lleol i feirniadu'r gwaith cartref, ac eraill fel Mr Arfon William Cwmtirmynach (cerdd), Mrs Eirian Jones Carrog, (Llefaru a Llên) a fu yn brysur iawn rhwng y ddau gyfarfod yn lleoli'r cystadleuwyr talentog. Roedd Mr Tudur Joes F.R.C.O. Tywyn yn ôl ei arfer yn cyfeilio mor fendigedig i'r unawdwyr drwy'r dydd. Roedd presenoldeb Ysgol Craig y Deryn yn amlwg yng nghyfarfod y prynhawn gyda'r holl siwmperi coch yn cymeryd rhan. Llywydd y dydd oedd Mrs Rosaline Powell o'r Hendre yn Abergynolwyn a cawsom sgwrs ddifyr o'i hanes. Cofiodd yn anrhydeddus iawn am goffra'r eisteddfod.

Diolch i'r Cynghorydd Beth Lawton ac Edward Tudor Jones am arwain cyfarfod y prynhawn mor drefnus - y plant a hwythau eu dau yn deall ei gilydd i'r dim, ac i Elwyn Evans am ddangos ei ddylanwad yng nghyfarfod yr hwyr.

Mae'r cyd-ysgrifenyddion Sheila Patterson a Gwen Williams yn gaeth i'w dyletswyddau drwy'r flwyddyn, a dyna yw hanes Robert Jones, (trysorydd) manwl iawn gyda Gweniona Pugh (cadeirydd) ac Elwyn Evans (is-gadeirydd) yn mynegi barn.

Gwerthfawrogir pob cefnogaeth i'r 'Steddfod a mawr yw dyled y pwyllgor i'r rhai hynny sydd mor gefnogol i'w hymdrechion flwyddyn ar ôl blwyddyn.